

DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2025

Gwnaed - - - - - *[21/10/2025]*

A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (“y Comisiwn”) dyddiedig 7 Ebrill 2025 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a’i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae’r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i’r Comisiwn.

Mae’r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf 2013.

Teitl a chychwyn

1.–(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2025.

(2) Daw’r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Mae “Map A” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map B” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map C” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map D” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map E” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 5 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map F” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 6 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map G” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 7 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map H” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 8 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map I” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 9 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map J” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 10 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map K” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 11 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map L” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 12 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map M” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 13 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map N” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 14 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map O” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 15 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map P” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 16 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map Q” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 17 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map R” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 18 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map S” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 19 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map T” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 20 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map U” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 21 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map V” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 22 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map W” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 23 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map X” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 24 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map Y” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 25 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map Z” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 26 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AA” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 27 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AB” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 28 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AC” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 29 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AD” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 30 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AE” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 31 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AF” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 32 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AG” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 33 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AH” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 34 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AI” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 35 i’r Gorchymyn hwn;

Mae “Map AJ” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 36 i’r Gorchymyn hwn;

Ile y dangosir ffin ar fap sy’n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai’n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i’r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

Newidiadau i ardal llywodraeth leol

3. Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

Cymunedau Llanharan a Llantrisant – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Llanharan a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap A:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llantrisant; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tonysguboriau o fewn cymuned Llantrisant; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llantrisant a Thonysguboriau.

Cymunedau Llanhari a Phont-y-clun – newid i ardaloedd cymunedol

5. Mae'r rhan o ward gymunedol Tyle-garw a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap B:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gorllewin Pont-y-clun o fewn cymuned Pont-y-clun.

Cymunedau Llanharan a Phont-y-clun – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

6. Mae'r rhan o gymuned Llanharan a ddangosir wedi'i lliwio'n frown ar Fap C:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gorllewin Pont-y-clun o fewn cymuned Pont-y-clun; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Pont-y-clun.

Cymuned Llanharan – newid i ardaloedd wardiau cymunedol

7. Mae'r rhan o ward gymunedol Llanilid a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap D:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Llanharan.

Cymuned Pont-y-clun – newid i ardaloedd wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

8. Mae'r rhan o ward gymunedol Canol Pont-y-clun a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap E:

- (a) yn cael ei throsglwyddo o ward gymunedol Dwyrain Pont-y-clun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Pont-y-clun.

Cymunedau Pont-y-clun a Llantrisant – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

9. Mae'r rhan o gymuned Pont-y-clun a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap F:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llantrisant; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tref Llantrisant o fewn cymuned Llantrisant; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llantrisant a Thonysguboriau.

10. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap G:

- (a) yn cael ei throsglwyddo o gymuned Pont-y-clun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Canol Pont-y-clun o fewn cymuned Pont-y-clun; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Canol Pont-y-clun.

Cymuned Tonyrefail – newid i ardaloedd wardiau cymunedol

11. Mae'r rhan o ward gymunedol Tyn-y-bryn a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap H:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Tretomas.

Cymunedau Tonyrefail a Gilfach-goch – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

12. Mae'r rhan o gymuned Gilfach-goch a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap I:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Tonyrefail; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tretomas o fewn cymuned Tonyrefail; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Tonyrefail.

Cymunedau Tonyrefail a Phen-y-graig – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

13. Mae'r rhan o gymuned Tonyrefail a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap J:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-graig; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pen-y-graig.

Cymunedau Tonyrefail a'r Cymer– newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

14. Mae'r rhan o gymuned Tonyrefail a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap K:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned y Cymer; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol y Cymer.

Cymunedau Ynys-hir a Phorth - newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

15. Mae'r rhan o gymuned Ynys-hir a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap L:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Porth; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Porth.

Cymunedau Porth a'r Cymer – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

16. Mae'r rhan o gymuned Porth a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap M:

- (a) yn cael ei throsglwyddo o gymuned y Cymer; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol y Cymer.

Cymuned y Cymer – newid i enw'r gymuned

17. Mae cymuned y Cymer, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol y Cymer.

Cymuned Gilfach-goch – newid i enwau'r gymuned a'r ward gymunedol

18. Mae cymuned Gilfach-goch, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol Gilfach-goch.

19. Mae ward gymunedol Gilfach Goch, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol Gilfach-goch.

Cymuned Ynys-hir – newid i enw'r gymuned

20. Mae cymuned Ynys-hir, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol Ynys-hir.

Ward Etholiadol Tylorstown ac Ynys-hir – newid i enw'r ward etholiadol

21. Mae ward etholiadol Tylorstown ac Ynys-hir, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw Saesneg Tylorstown and Ynys-hir.
- (b) a'r enw Cymraeg Tylorstown ac Ynys-hir.

Cymunedau Hirwaun a'r Rhigos – newid i ardaloedd cymunedol

22. Mae'r rhan o gymuned Hirwaun a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap N:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned y Rhigos.

23. Mae'r rhan o gymuned Hirwaun a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap N:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned y Rhigos.

24. Mae'r rhan o gymuned y Rhigos a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap N:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Hirwaun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Hirwaun o fewn cymuned Hirwaun.

Cymunedau Hirwaun a Phen-y-waun – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

25. Mae'r rhan o gymuned Hirwaun a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap O:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-waun; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pen-y-waun.

Cymunedau Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

26. Mae'r rhan o gymuned Dwyrain Aberdâr a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap P:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Gorllewin Aberdâr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed.

27. Mae'r rhan o gymuned Gorllewin Aberdâr a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap Q:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Dwyrain Aberdâr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Aberdâr.

28. Mae'r rhan o gymuned Dwyrain Aberdâr a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap R:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Gorllewin Aberdâr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed.

Cymunedau Dwyrain Aberdâr a Gogledd Aberaman – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

29. Mae'r rhan o gymuned Gogledd Aberaman a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap S:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Dwyrain Aberdâr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Aberdâr.

Cymunedau De Aberaman a Gogledd Aberaman – newid i ardaloedd cymunedol

30. Mae'r rhan o gymuned Gogledd Aberaman a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap T:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned De Aberaman.

Cymunedau Treherbert a Threorci - newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

31. Mae'r rhan o gymuned Treherbert a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap U:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Treorci; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Treorci.

Cymunedau Pentre a Threorci – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

32. Mae'r rhan o gymuned Pentre a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap V:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Treorci; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Treorci.

Cymunedau Pentre ac Ystrad – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

33. Mae'r rhan o gymuned Pentre a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap W:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Ystrad; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ystrad.

Cymunedau'r Maerdy i Llynrhedynog – newid i ardaloedd cymunedol

34. Mae'r rhan o gymuned y Maerdy a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap X:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Glynrhedynog.

Cymunedau Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar – newid i ardaloedd cymunedol

35. Mae'r rhan o gymuned Gorllewin Aberpennar a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap Y:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Dwyrain Aberpennar.

Cymunedau Penrhiw-ceibr ac Abercynon – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

36. Mae'r rhan o gymuned Abercynon a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap Z:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Penrhiw-ceibr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penrhiw-ceibr.

Cymunedau Penrhiw-ceibr a Gorllewin Aberpennar – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

37. Mae'r rhan o gymuned Gorllewin Aberpennar a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap AA:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Penrhiw-ceibr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penrhiw-ceibr.

38. Mae'r rhan o gymuned Gorllewin Aberpennar a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap AB:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Penrhiw-ceibr; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penrhiw-ceibr.

Cymunedau Tonypandy a Llwynypia – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

39. Mae'r rhan o gymuned Tonypandy a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap AC:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llwynypia; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llwynypia.

Cymuned Llwynypia – newid i enw'r gymuned

40. Mae cymuned Llwynypia, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol Llwynypia.

Ward Etholiadol Llwynypia – newid i enw'r ward etholiadol

41. Mae ward etholiadol Llwynypia, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw unigol Llwynypia.

Cymunedau Tonypandy a Chwm Clydach – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

42. Mae'r rhan o gymuned Tonypandy a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap AD:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Cwm Clydach; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cwm Clydach.

Cymunedau Tref Pontypridd a Ffynnon Taf – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

43. Mae'r rhan o gymuned Tref Pontypridd a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap AE:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Ffynnon Taf; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Nantgarw o fewn cymuned Ffynnon Taf; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ffynnon Taf.

44. Mae'r rhan o gymuned Ffynnon Taf a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap AF:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Tref Pontypridd; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf o fewn cymuned Tref Pontypridd; ac
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf.

Cymuned Tref Pontypridd – newid i ardaloedd wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

45. Mae'r rhan o ward gymunedol y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap AG:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf.

46. Mae'r rhan o ward gymunedol Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap AH:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Canol Rhydfelen; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Canol Rhydfelen.

47. Mae'r rhan o ward gymunedol Rhondda a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap AI:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Tref Pontypridd; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tref Pontypridd.

Cymuned Ffynnon Taf – newid i enw'r gymuned a'r ward gymunedol

48. Mae cymuned Ffynnon Taf, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw Saesneg Taff's Well; ac
- (b) yr enw Cymraeg Ffynnon Taf.

49. Mae ward gymunedol Ffynnon Taf, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw Saesneg Taff's Well; ac
- (b) yr enw Cymraeg Ffynnon Taf.

Cymuned Tref Pontypridd – newid i enw'r ward gymunedol

50. Mae ward gymunedol y Dref, fel y'i newidiwyd gan y Gorchymyn hwn:

- (a) yn cael yr enw Saesneg Pontypridd Town; ac
- (b) yr enw Cymraeg Tref Pontypridd.

Cymuned Llanilltud Faerdref – newid i ardaloedd wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

51. Mae'r rhan o ward gymunedol Pentre'r Eglwys a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap AJ:

- (a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Ton-teg; ac
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ton-teg.

Llanharan, Llanhari, Pont-y-clun, a Thonyrefail – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

52. Yng nghymuned Llanharan, nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer ward Brynna yw 5, y nifer ar gyfer ward Llanharan yw 5, a'r nifer ar gyfer ward Llanilid yw 5.

53. Yng nghymuned Llanhari, nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer ward Llanhari yw 8.

54. Yng nghymuned Pont-y-clun, nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer ward Canol Pont-y-clun yw 4, y nifer ar gyfer ward Dwyrain Pont-y-clun yw 4, a'r nifer ar gyfer ward Gorllewin Pont-y-clun yw 4.

55. Yng nghymuned Tonyrefail, nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer ward Coedelái yw 2, y nifer ar gyfer ward Collena yw 3, y nifer ar gyfer ward Penrhiw-fer yw 2, y nifer ar gyfer ward Tretomas yw 2, y nifer ar gyfer ward Tylcha yw 2, a'r nifer ar gyfer ward Tyn-y-bryn yw 3.

Wedi'i seilio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar **21**ain diwrnod mis **Hydref 2025**

[21/10/2025]

Beverley Smith

Cadeirydd


Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru



ATODLEN 1

MAP A – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU LLANHARAN A LLANTRISANT


Ardal Llanharan i Donysguboriau



ATODLEN 2

MAP B – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU LLANHARI, LLANHARAN, A PHONT-Y-CLUN


Ardal Tyle-garw i Orllewin Pont-y-clun ac Ardal Llanharan i Orllewin Pont-y-clun



ATODLEN 3

MAP C – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU LLANHARAN A PHONT-Y-CLUN


Ardal Llanharan i Orllewin Pont-y-clun



ATODLEN 4

MAP D – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL LLANILID A LLANHARAN


Ardal Llanilid i Llanharan



ATODLEN 5

MAP E – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL CANOL PONT-Y-CLUN A DWYRAIN PONT-Y-CLUN


Ardal Ganol Pont-y-clun i Ddwyrain Pont-y-clun



ATODLEN 6

MAP F – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU PONT-Y-CLUN A LLANTRISANT


Ardal Ddwyrain Pont-y-clun i Dref Llantrisant



ATODLEN 7

MAP G – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU PONT-Y-CLUN A LLANTRISANT


Ardal Tonysguboriau i Ganol Pont-y-clun



ATODLEN 8

MAP H – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL TYN-Y-BRYN A THRETOMAS


Ardal Tyn-y-bryn i Dretomas a Hendreforgan i Dretomas



ATODLEN 9

MAP I – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TONYREFAIL A GILFACH-GOCH


Ardal Tyn-y-bryn i Dretomas a Hendreforgan i Dretomas



ATODLEN 10

MAP J – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TONYREFAIL A PHEN-Y-GRAIG


Ardal Penrhiw-fer i Ben-y-graig



ATODLEN 11

MAP K – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TONYREFAIL A'R CYMER


Ardal Collena i Gymer



ATODLEN 12

MAP L – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU YNYS-HIR A'R CYMER


Ardal Ynys-hir i Borth



ATODLEN 13

MAP M – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU PORTH A'R CYMER


Ardal Porth i Gymer



ATODLEN 14

MAP N – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU HIRWAUN A'R RHIGOS

Ardal Hirwaun i Rigos ac Ardal Rhigos i Hirwaun



ATODLEN 15

MAP O – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU HIRWAUN A PHEN-Y-WAUN


Ardal Hirwaun i Ben-y-waun



ATODLEN 16

MAP P – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DWYRAIN ABERDÂR A GORLLEWIN ABERDÂR

Ardal Dwyrain Aberdâr i Orllewin Aberdâr



ATODLEN 17

MAP Q – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DWYRAIN ABERDÂR A GORLLEWIN ABERDÂR


Ardal Gorllewin Aberdâr i Ddwyrain Aberdâr



ATODLEN 18

MAP R – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DWYRAIN ABERDÂR A GORLLEWIN ABERDÂR

Ardal Dwyrain Aberdâr i Orllewin Aberdâr



ATODLEN 19

MAP S – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DWYRAIN ABERDÂR A GOGLEDD ABERAMAN


Ardal Gogledd Aberaman i Ddwyrain Aberdâr



ATODLEN 20

MAP T – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DE ABERAMAN A GOGLEDD ABERAMAN


Ardal Gogledd Aberaman i Dde Aberaman



ATODLEN 21

MAP U – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TREHERBERT A THREORCI


Ardal Treherbert i Dreorci



ATODLEN 22

MAP V – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU PENTRE A THREORCI

Ardal Pentre i Dreorci



ATODLEN 23

MAP W – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU PENTRE AC YSTRAD


Ardal Pentre i Ystrad



ATODLEN 24

MAP X – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU'R MAERDY A GLYNRHEDYNOG


Ardal Y Maerdy i Llynrhedynog



ATODLEN 25

MAP Y – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU DWYRAIN ABERPENNAR A GORLLEWIN ABERPENNAR


Ardal Gorllewin Aberpennar i Ddwyrain Aberpennar



ATODLEN 26


MAP Z – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU ABERCYNON A PHENRHIW-CEIBR

Ardal Abercynon i Benrhiw-ceibr



ATODLEN 27


MAP AA – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU GORLLEWIN ABERPENNAR A PHENRHIW-CEIBR



ATODLEN 28

MAP AB – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU GORLLEWIN ABERPENNAR A PHENRHIW-CEIBR


Ardal Gorllewin Aberpennar i Benrhiw-ceibr



ATODLEN 29

MAP AC – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TONYPANDY A LLWYNYPYA

Ardal Tonypandy i Lwynypia



ATODLEN 30

MAP AD – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TONYPANDY A CHWM CLYDACH


Ardal Tonypandy i Gwm Clydach



ATODLEN 31

MAP AE – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TREF PONTYPRIDD A FFYNNON TAF


Ardal Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf i Nantgarw



ATODLEN 32

MAP AF – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU TREF PONTYPRIDD A FFYNNON TAF


Ardal Nantgarw i'r Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf



ATODLEN 33

MAP AG – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – CYMUNED TREF PONTYPRIDD


Ardal Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf i Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf



ATODLEN 34

MAP AH – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – CYMUNED TREF PONTYPRIDD


Ardal Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf i Ganol Rhydfelen



ATODLEN 35

MAP AI – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – CYMUNED TREF PONTYPRIDD


Ardal Rhondda i Dref Pontypridd



ATODLEN 36

MAP AJ – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARDIAU CYMUNEDOL – CYMUNED LLANILLTUD FAERDREF

Ardal Pentre'r Eglwys i Don-teg



NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), yn rhoi grym i'r argymhellion a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor"). Adroddodd y Cyngor ym mis Ebrill 2025 ar ei arolwg o ffiniau cymunedol o dan adran 25 Deddf 2013.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i ffiniau cymunedau Gogledd Aberaman, De Aberaman, Abercynon, Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr, Cwm Clydach, y Cymer, Glynrhedynog, Gilfach-goch, Hirwaun, Llanharan, Llanhari, Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Llwynypia, y Maerdy, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr, Pentre, Pen-y-graig, Pen-y-waun, Pont-y-clun, Tref Pontypridd, Porth, y Rhigos, Ffynnon Taf, Tonypany, Tonyrefail, Treherbert, Treorci, Ynys-hir, ac Ystrad. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau'r cymunedau hynny.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i enwau cymunedau a wardiau etholiadol, a rhoddwyd yr enwau argymelledig yn y mapiau.

Mae argraffiadau o fapiau ffiniau A i AJ y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi'u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [**ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**]